# Geirfa Allweddol

**5 piler Islam** - 5 rheol bwysicaf o fewn Islam.
**Aliniad** - yn cyd-fynd â rhywbeth yn berffaith.
**Amgylchfyd** - y byd o'n cwmpas.
**Amldduwiaeth** - y gred mewn mwy nag un duw.
**Anglicanaidd** - ansoddair am unrhyw beth sy'n perthyn i'r Eglwys Anglicanaidd e.e. Yr Eglwys yng Nghymru / Eglwys Lloegr.
**Arwyddocâd** - Rhywbeth pwysig.
**Awen** - y grym creadigol sy'n llifo drwy natur.
**Barclodiad y Gawres** - siambr gladdu neolithig ar Ynys Môn.
**Catholig** - ansoddair am unrhyw beth sy'n perthyn i'r traddodiad Anglicanaidd a Chatholig.
**Creiriau** - pethau o'r gorffennol.
**Derwyddon** - Roedd derwydd yn aelod o'r dosbarth uchaf mewn diwylliannau Celtaidd hynafol. Roedd derwyddon yn arweinwyr crefyddol yn ogystal â bod yn arbenigwyr cyfreithiol, dyfarnwyr, meddygon a chynghorwyr gwleidyddol. Ni adawodd y Derwyddon unrhyw gofnodion ysgrifenedig.
**Diwygiad Protestanaidd** - protest yn erbyn Eglwys Gatholig Rhufain yn yr 16eg Ganrif a arweiniodd at greu amrywiol Eglwysi Protestanaidd.
**Diwylliant** - pethau sy'n dylanwadu ar y ffordd rydym yn byw ac ymddwyn e.e. hanes, gwerthoedd.
**Duwdod** - duw neu dduwies mewn crefydd.
**Dyletswydd** - tasg neu weithred y mae angen i rywun ei chyflawni.
**Hajj** - Taith arbennig o fewn Islam.
**Hirddydd haf** - diwrnod hiraf y flwyddyn – 21 Mehefin.
**Hynafiaid** - pobl y gorffennol.
**Ihram** - Gwisg wen mae rhaid i bob dyn ei wisgo i symboleiddio cydraddoldeb rhwng pawb ar y Hajj.
**Islam** - un o'r 6 crefyddau mwyaf y byd.
**Ka'ba** - Bocs enfawr yn y Mosg Mawr ble y mae Mwslemiaid yn cerdded o gwmpas.
**Mecca** - Dinas yn Sawdi Arabia.
**Mosg** - Man addoli Islam.
**Mwslim** - Unigolyn sydd yn dilyn Islam.
**Neolithig** - cyfnod mewn hanes, tua 6000 o flynyddoedd yn ôl.
**Paganiaeth** - term ymbarél am nifer o draddodiadau gwahanol sydd â chysylltiad agos a'u hamgylchfyd o ran hanes, daearyddiaeth, diwylliant a chwedlau.
**Pantheistiaeth** - y gred mai duw yw popeth ac ym mhopeth.
**Pererindod** - Taith arbennig.
**Pererindod** - mynd ar daith i le o bwys crefyddol.
**Qur'an** - Llyfr santaidd Islam.
**Teithlen** - Saesneg- Itinery, sef dogfen sydd yn dangos cynllun y daith.
**Ysbrydoli** - codi ysbryd rhywun, annog.